OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 4

Lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws

### Gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig i leihau risg

**17.**—(1) At ddibenion paragraff (2)—

(a) ystyr "mangre reoleiddiedig" yw—

(i) mangre y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddi yn rhinwedd rheoliad 11(2), 12(2), 13(2) neu 14(2), (3) neu (4);

(ii) mangre busnes neu wasanaeth a gaiff barhau i fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 15;

(iii) cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus;

(iv) mangre arall lle y mae gwaith yn cael ei wneud, a

(b) ystyr y "person cyfrifol" yw—

(i) mewn perthynas â mangre reoleiddiedig y cyfeirir ati yn is-baragraff (a)(i), (ii) neu (iii), y person sy'n gyfrifol am y fangre,

(ii) mewn perthynas â mangre reoleiddiedig o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (a)(iv), y person sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud yn y fangre.

(2) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre reoleiddiedig, neu ledaenu'r coronafeirws gan y rheini sydd wedi bod mewn mangre reoleiddiedig, rhaid i'r person cyfrifol—

(a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr);

(ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael ei gynorthwyo gan y gofalwr),

(b) cymryd unrhyw fesurau rhesymol eraill at y diben hwnnw, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac yn cynnal hylendid megis—

(i) newid trefn mangre gan gynnwys lleoliad dodrefn a gweithfannau;

(ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau;

(iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau;

(iv) rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi fel arall;

(v) gosod rhwystrau neu sgriniau;

(vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac

(c) darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n mynd i'r fangre neu'n gweithio ynddi ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Mae mesurau y gellir eu cymryd o dan baragraff (2) hefyd yn cynnwys—

(a) peidio â gwneud gweithgareddau penodol;

(b) cau rhan o'r fangre;

(c) caniatáu a galluogi i berson sydd fel arfer yn gweithio yn y fangre ynysu am gyfnod penodedig oherwydd profi'n bositif am y coronafeirws neu am ei fod wedi dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif, pan ofynnwyd i'r person hwnnw wneud hynny gan—

(i) Gweinidogion Cymru;

(ii) swyddog iechyd cyhoeddus;

(iii) swyddog i Fwrdd Iechyd lleol;

(iv) person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol at ddibenion cysylltu â phersonau a all fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws;

(d) casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre neu, mewn perthynas â phersonau o'r un aelwyd, oddi wrth un ohonynt, a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i unrhyw un o'r canlynol, ar eu cais neu ar ei gais—

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) swyddog iechyd cyhoeddus,

(iii) person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol i brosesu gwybodaeth at ddibenion cysylltu â phersonau a all fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "gwybodaeth gyswllt", mewn perthynas â pherson yn y fangre, yw enw'r person a gwybodaeth sy'n ddigonol i allu cysylltu â'r person, i roi gwybod iddo y gall fod wedi dod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre (gan gynnwys rhif ffôn a'r dyddiad a'r amser yr oedd y person yn y fangre);

(b) mae i "swyddog iechyd cyhoeddus" yr un ystyr ag a roddir i "public health officer" ym mharagraff 3(2)(c) o Atodlen 21 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**);

(c) mae i "Bwrdd Iechyd Lleol" yr ystyr a roddir i "Local Health Board" gan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 17 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

(**1**) 2020 p. 7.
(**2**) 2006 p. 42.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, Adran 17.